LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 25-11-15a**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| **Cadeirydd y Pwyllgor:** | Karen Lewis |
| **Cyfnod Adrodd:** | Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2025 |

**Penderfyniadau allweddol a materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor**

**Cyfarfod pwyllgor ychwanegol – 30 Medi 2025:**

**Llythyr Rheoli Archwilio Allanol (ISA260) ar gyfer 2024/2025**
Derbyniodd y pwyllgor adroddiad a oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau archwiliad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/2025 gan Archwilio Cymru. Cadarnhaodd cynrychiolwyr Archwilio Cymru fod y gwaith archwilio wedi'i gwblhau'n sylweddol fel y nodir yn y Cynllun Archwilio dyddiedig Mai 2025. Roedd y gwaith archwilio yn cael ei gwblhau, ond nid oedd disgwyl y byddai unrhyw welliannau sylweddol. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r ddau argymhelliad archwilio lle awgrymwyd gwelliant pellach i drefniadau Llais i gefnogi proses y flwyddyn nesaf.

**Ystyried cwblhau'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r argymhelliad i'r Bwrdd**
Derbyniodd y pwyllgor fersiwn bellach o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ar gyfer 2024/2025, a chadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd fod y cynnwys wedi'i wirio yn erbyn gofynion y canllawiau.

Derbyniwyd sylwadau ac awgrymiadau pellach gan aelodau, a chytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu hymgorffori a chadarnhad yn cael ei ddarparu o'r newidiadau a wnaed yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ar gyfer y cofnod.

Cytunodd y Pwyllgor, gan ymgorffori'r gwelliannau a'r addasiadau a awgrymwyd ac ystyried yr adroddiad gan Archwilio Cymru, i argymell i'r Bwrdd gymeradwyo'r ddogfennaeth mewn cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd ar 5 Tachwedd 2025.

**Materion sydd angen cymeradwyaeth neu ystyriaeth ar lefel y Bwrdd**

- Cymeradwyodd y pwyllgor y ddogfennaeth i'w chyflwyno i'r Bwrdd gyda'r gwelliannau a oedd wedi'u hamlygu i'w

| | |
|---|---|
| cymeradwyo. Byddai hyn yn digwydd yng nghyfarfod ychwanegol y Bwrdd ar 5 Tachwedd 2025. | |
| | |
| **Materion eraill** | |
| Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill. | |
| | |
| **Busnes y pwyllgor wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf** | |
| Bydd y pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar ei eitemau sefydlog arferol, a'i raglen waith arfaethedig gan gynnwys:<br>• Ystyried adroddiad canol blwyddyn ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o archwilio mewnol ac unrhyw adroddiadau a chraffu a gwblhawyd ar y traciwr archwilio<br>• Adroddiad diweddaru ar ddatblygiadau digidol, TG a seiber<br>• Fframwaith Llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd - adolygiad canol blwyddyn<br>• Adroddiad adolygu ar Orchmynion Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynllun Dirprwyo<br>• Adroddiadau arferol - Adborth, pryderon a chwynion, diweddariad ar Anrhegion a Lletygarwch a diweddariad ar Ddatganiadau Buddiant | |
| | |
| **Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:** | Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2025 |